# Canllaw i Gynrychiolwyr Cwrs

2026-27

UM Wrecsam
Wrexham SU

A wnewch chi fy ailgylchu!

# Cynnwys


- Croeso
- Beth Mae Cynrychiolydd Cwrs yn Ei Wneud?
- Pam Mynd yn Gynrychiolydd Cwrs?
- Oriau Gwirfoddoli
- Trin Adborth
- Beth ydy Unitu?
- Hyfforddiant Cynrychiolwyr Cwrs
- Synnwyr Cyffredin
- Cwestiynau Cyffredinol
- Cysylltiadau Defnyddiol




# Croeso

Croeso i'r pecyn hyfforddi i Gynrychiolwyr Cwrs. Cewch yma yr holl wybodaeth ar fod yn Gynrychiolydd Cwrs effeithiol wrth ysgogi newid cadarnhaol er budd myfyrwyr ym Mhrifysgol Wrecsam. Trwy fod yn Gynrychiolydd Cwrs, chi sydd wrth wraidd yr hyn y mae Undeb y Myfyrwyr yn ei wneud, gan gynrychioli llais y myfyrwyr. Llais y myfyrwyr sydd bwysicaf wrth greu newid. Rydyn ni eisiau clywed yr hyn sydd gennych chi a gan eich cyfoedion i'w ddweud. Mae'n bwysig bod yn onest a dweud yr hyn sydd ar eich meddwl a rhoi ymateb clir a gonest. Gall unigolyn wneud argraff sylweddol. Rwy'n edrych ymlaen at eich cyfarfod i gyd, gweithio gyda chi trwy gydol y flwyddyn, a gweld yr holl newid cadarnhaol a wnewch i gyd.



**Josh Darlington**
Cydlynydd Llais y Myfyrwyr

Croeso, a diolch am ddod yn Gynrychiolydd Cwrs. Trwy ymgymryd â'r swydd hon, rydych chi'n helpu sicrhau fod gan fyfyrwyr lais a bod eu barn yn helpu llywio newidiadau cadarnhaol ar draws y Brifysgol. Mae eich barn a barn eich cyfoedion o bwys, ac rydyn ni yma i'ch cefnogi trwy gydol y flwyddyn. Bydd y canllaw hwn yn eich tywys trwy'r swydd ac yn rhoi popeth sydd angen i chi ei wybod i ddechrau arni. Diolch am ddod yn rhan, rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chi a gweld eich llwyddiant.



**Abimbola Caleb**
Llywydd yr Undeb

Hi bawb, diolch am gamu i'r adwy! Nid teitl mo eich rôl, ymddiriedaeth yw hon. Chi ydy'r bont rhwng myfyrwyr a staff, ond does dim modd cynnal y bont honno heb i chi godi eich llais. Waeth a ydych chi'n newydd neu yn dychwelyd, eich arf ydy'r canllaw hwn. Mae bod yn Gynrychiolydd Cwrs yn fwy na chyfarfodydd. Mae'n ymwneud â sicrhau fod llais y myfyrwyr yn cael ei glywed. Nid bach mo hynny. Dyna chi arwain. Ar ran Undeb y Myfyrwyr, diolch am ddewis bod o bwys. Rwy'n wirioneddol yn edrych ymlaen at weld beth wnawn ni gyflawni gyda'n gilydd a hynny o ddifri. Dyma groesawu blwyddyn o bwys.



**Omeya Chinemerem**
Is-Lywydd yr Undeb

# Beth mae cynrychiolydd cwrs yn ei wneud?

Gweithio tuag at y nod o wella profiad y myfyriwr trwy ymgyrchu'n weithgar fel aelodau Undeb y Myfyrwyr.

Defnyddio a chadw golwg ar Unitu, man ar-lein saff ar gyfer rhoi adborth a thrafod.

Pethau ychwanegol y gallwch fynd ynghlwm â nhw- cymryd rhan mewn dilysiadau, dod yn Gynrychiolydd Cyfadran, sefyll yn yr etholiadau.

Gwahoddir Cynrychiolwyr Cwrs i fynychu Fforymau Llais y Myfyrwyr lle bydd rhaid iddynt gyflwyno ymatebion.

Rhoi myfyrwyr ar ben y ffordd i'r adran neu aelod o staff perthnasol os oes ganddynt ymholiadau.

Gweithio'n agos efo Cynrychiolwyr Cyfadran i gyflwyno ymatebion.

Hyrwyddo a chefnogi y staff academaidd efo unrhyw arolygon holi barn ee Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr.

Cau'r ddolen adborth trwy ddiweddaru'r garfan a chyfoedion ar unrhyw newidiadau a wneir.

Hel barn ac ymatebion oddi wrth eich cyfoedion boed yn ysgrifenedig, ar lafar neu drwy Unitu.

Mynychu hyfforddiant Cynrychiolwyr Cwrs ar ddechrau'r flwyddyn academaidd i ennill y sgiliau y bydd eu hangen arnoch i gyflawni'r rôl a dechrau meithrin cysylltiadau â'r Undeb a Chynrychiolwyr Cwrs eraill.

Weithiau y bydd disgwyl i Gynrychiolwyr Cwrs gynrychioli barn nad ydynt o reidrwydd yn cyd-weld â hi, ond os mai dyma farn y myfyrwyr, ei mynegi ydy eu swydd.

# Pam Mynd yn Gynrychiolydd Cwrs?

## Cynrychiolydd Cwrs y Mis

Roedd ar Dîm Llais y Myfyrwyr eisiau dangos i Gynrychiolwyr Cwrs y gydnabyddiaeth y maent yn wirioneddol yn ei haeddu. O fis Hydref i fis Ebrill, dewisir Cynrychiolwyr Cwrs i fod yn Gynrychiolydd y Mis. Gallai hyn fod yn gynrychiolydd sydd wedi defnyddio Unitu ac wedi ymateb i adborth, wedi mynychu hyfforddiant neu weithdy, wedi mynychu Fforymau Llais y Myfyrwyr, neu wedi gweithio ar y cyd â'u cyfoedion, eu carfanau, neu tîm eu cynllun. I'ch enwebu eich hun neu gynrychiolydd arall rydych chi'n credu eu bod yn haeddu cydnabyddiaeth, cysylltwch â Joshua.Darlington@wrexham.ac.uk

## Hwb i'r CV

Trwy gyflawni rôl Gynrychiolydd Academaidd, byddwch yn meithrin bob math o alluoedd trosglwyddadwy ee; hyder, gweithio mewn tîm, sgiliau ymchwil, arwain, siarad yn gyhoeddus, gwirfoddoli, trefnu, ayyb. Bydd yr holl sgiliau hyn yn edrych yn dda iawn ar eich CV yng ngolwg cyflogwyr yn y dyfodol.

## Meithrin Rhwydwaith

Mae bod yn Gynrychiolydd Cwrs yn caniatáu i chi fagu cysylltiad ag Undeb y Myfyrwyr a Chynrychiolwyr Cwrs eraill, gan ei gwneud yn haws i wneud pethau yn y dyfodol ee cymryd rhan mewn dilysiadau, dod yn Gynrychiolydd Cyfadran, sefyll yn yr etholiadau, neu unrhyw gyfleoedd eraill a gefnogir gan yr Undeb.

## Rôl Werthfawr

Dyma rôl lle gallwch helpu pobl a sicrhau bod bywyd yn y Brifysgol cystal ag y gall fod i bawb. Wrth ddod yn Gynrychiolydd Cwrs, mae gennych y cyfle i wneud gwahaniaeth go iawn er gwell. Beth gewch chi well na hynny?

## Oriau Gwirfoddoli

Trwy gadw cofnod o'ch oriau gwirfoddoli, rydych chi'n cadw prawf o'ch gwirfoddoli a hefyd yn eich rhoi yn y gystadleuaeth efo'r cyfle i ennill gwobr Wirfoddoli yng ngwobrau yr Undeb ar ddiwedd y flwyddyn Mae gwobrau efydd, arian ac aur i'w hennill yn y gwobrau sy'n seiliedig ar faint o oriau gwirfoddoli rydych chi'n eu cyflawni:

15 awr- y Wobr Efydd
20 awr- y Wobr Arian
30 awr- y Wobr Aur



Cadwch gofnod o'ch oriau trwy gydol y flwyddyn a thuag adeg mis Ebrill 9 dyddiad heb ei gadarnhau), anfonwch eich dalennau amser at Joshua.Darlington@wrexham.ac.uk

# Oriau Gwirfoddoli

Eleni, fe allwch wneud cofnod o'ch oriau gwirfoddoli am yr holl waith rydych chi'n ei roi i fod yn Gynrychiolydd Cwrs. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn cael eich cydnabod a'ch cydnabod am eich holl amser a'ch gwaith caled trwy gydol y flwyddyn.

## Cofnodi Eich Oriau

I gofnodi eich oriau, bydd rhaid i chi lawrlwytho y Cofnod Oriau Gwirfoddoli a gwneud cofnod bob tro i chi wneud gweithgaredd sy'n perthyn i fod yn Gynrychiolydd Cwrs.

Pan fyddwch chi'n cofnodi eich oriau, cofiwch nodi popeth o Fforymau Llais y Myfyrwyr, i greu holiaduron, edrych ar ymatebion a'r amser a dreulir wrth gadw llygad ar Unitu. Rydyn ni am i'r cofnod oriau fod yn ddyddiadur i chi. Cofiwch gofnodi faint o amser a dreulioch chi ar y weithgaredd ac yna disgrifio y weithgaredd Gwnewch yn siŵr fod eich holl oriau yn rhesymol am faint y gwaith a gyflawnir.


Bydd rhaid i chi gyflwyno eich cofnod oriau erbyn diwedd pob tymor i ddangos eich cynnydd a chadw golwg ar y gwaith rydych chi wedi'i wneud. Bydd rhaid i chi gyflwyno y cyntaf cyn y Nadolig a'r ail cyn Gwobrau Undeb Wrecsam.
I gyflwyno eich dalennau amser, dim ond i chi eu hanfon at Joshua.Darlington@wrexham.ac.uk.



## Oriau Gwirfoddoli

Mae tair gwahanol Gwobr Wirfoddoli y gallech eu hennill os ydych chi'n cyflwyno eich dalennau amser ond bod y rheiny yn dibynnu ar faint o amser rydych chi'n gwirfoddoli.

**Y Wobr Efydd- 15 awr o wirfoddoli trwy gydol y flwyddyn.**
**Y Wobr Arian- 20 awr o wirfoddoli trwy gydol y flwyddyn.**
**Y Wobr Aur- 30 awr o wirfoddoli trwy gydol y flwyddyn.**



Volunteering Time Sheets
Course Reps 2026-27
Semester 1

Course Rep: John Smith    Total Hours 11.5

| DATE | START TIME | END TIME | ACTIVITY | TOTAL HOURS | Hours Awarded (Admin Use Only) |
|---|---|---|---|---|---|
| 20/09/2026 | 2pm | 4pm | Attended Course Rep Training | 2.00 | 2 |
| 15/10/2026 | 12:30pm | 2pm | Attended Lunch and Listen | 1.50 | 1.5 |
| 01/11/2026 | 2:30pm | 3:30pm | Made and distributed a questionnaire to course mates | 1.00 | 1 |
| 07/11/2026 | 2pm | 4pm | Went through feedback, categorised, made graphs, etc. | 2.00 | 2 |
| 09/11/2026 | 1pm | 2pm | Student Voice Forum | 1.00 | 1 |
| 15/10/2026 | 1pm | 2:30pm | Attended Lunch and Listen | 1.50 | 1.5 |
| 17/10/2026 | 1pm | 1.30pm | Updated cohort with changes that will be made following SVF | 0.50 | 0.5 |
| 10/12/2026 | 12:30pm | 2pm | Attended Lunch and Listen | 1.50 | 1.5 |
| 13/12/2026 | 2pm | 3pm | Monitored UNITU and answered question about Exams | 1.00 | 0.5 (Didn't take 1 hour to complete) |
| | | | | | |
| | | | | | |

# Trin Adborth

## Casglu ymatebion

Nid oes ffordd iawn o geisio ymatebion, mewn gwirionedd, ceir lawer o wahanol ffyrdd o gasglu adborth a all helpu gwella eich cwrs er gwell i chi ac i bawb arall. Dyma ychydig o enghreifftiau:

**UNITU**
Gallwch ddefnyddio'r llwyfan hon at ofyn cwestiynau, hel adborth a gweld beth sydd ar feddwl pobl eraill. Mae'r llwyfan hefyd yn ddefnyddiol o ran cau'r cylch adborth..

**Ar Lafar**
Siaradwch â'ch ffrindiau ar eich cwrs i weld beth maent yn ei feddwl o'r dysgu a'r cynnwys ar y cwrs. Yna ewch o gwmpas i siarad ag ychydig o fyfyrwyr eraill i gael gwybod a ydynt yn teimlo'r un peth. Byddwch ofalus rhag gofyn cwestiynau arweiniol.

**Holiaduron ac Arolygon**
Gallwch greu eich holiaduron a'ch arolygon eich hunain a'u dosbarthu i'ch cyfoedion ar eich cwrs. Cofiwch sicrhau bod pob cwestiwn yn briodol cyn ei anfon. Gyrrwch e-bost at Joshua.Darlington@wrexham.ac.uk pe hoffech i fi edrych dros eich cwestiynau a chynnig cyngor.

**Grwpiau Ffocws**
Gallwch drefnu amser a lleoliad i chi ac i'ch cyfoedion ddod ynghyd i drafod y cwrs a chael ymatebion yn y man a'r lle.

## Cyflwyno Adborth

Gall cyflwyno adborth yn uniongyrchol i'r staff academaidd fod yn heriol. Mae'n bwysig eich bod yn sicrhau fod llais pawb yn cael ei glywed tra hefyd yn sicrhau fod staff academaidd yn barod i groesawu'r adborth. Mae ychydig o bethau y dylech bob tro eu gwneud pan ddaw yn fater o gyflwyno adborth i staff academaidd yn effeithiol.

**Y Dull Brechdan Adborth**
Dyma pryd y byddwch yn rhoi ymatebion negyddol rhwng dau ddarn o adborth cadarnhaol i feddalu'r ergyd. Pan ddaw eich tro i siarad, cyflwynwch yr ymateb yn y drefn hon: "Mae hynny yn gweithio'n dda iawn... gallai hyn wella... ond o ystyried popeth, mae hyn yn wych..."

**Rhowch Feirniadaeth Fuddiol**
Mae'n bwysig bod yn onest wrth roi adborth, ond mae peidio â bod yn negyddol yr un mor bwysig. Pan yn cyflwyno adborth negyddol, beth am awgrymu sut y gellid mynd i'r afael â'r broblem honno. Gellid mynd ati trwy y drefn hon "Dydy hynny ddim yn gweithio... ond a ydych chi wedi ystyried rhoi cynnig ar hyn yn lle..." Mae hyn yn dangos eich bod wedi meddwl am y problemau a godir ac wedi'ch rhoi eich hun yn lle'r academydd i geisio ateb y mater.

**Y Mater sydd dan sylw, nid yr Unigolyn**
Os byddwch yn cael ymateb negyddol ynglŷn ag unigolyn neu ddarlithydd, gwell ydy trin yr adborth yn ofalus. r enghraifft, os cewch ymateb sy'n tynnu sylw at fod darlithydd yn siarad yn rhy sydyn, yn lle sôn am hynny, beth am ddweud "mae rhai myfyrwyr yn ei gweld hi'n anodd ymdopi â chyflymder y darlithoedd."

**Cofiwch ei gwneud hi'n glir bob tro mai adborth oddi wrth y mwyafrif ydy hwn**
gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud "mae'r myfyrwyr yn teimlo..." yn hytrach na geiriau megis "dwi" gan y bydd yn dangos nad eich barn yn unig mo hynny ond barn y mwyafrif.

# Unitu

## Beth ydy Unitu?

Llwyfan lle gall myfyrwyr rannu eu barn am eu profiadau boed yn academaidd neu'n weithredol ydy Unitu.

Gallai'r adborth a'r trafod hyn gynnwys:

Canmol 🙏
Mater 🤔
Cwestiwn ❓
Syniad 💡

## Beth ydy Bwrdd Adborth?

Man canolog lle mae myfyrwyr, cynrychiolwyr a staff yn rhyngweithio â'r ymatebion a godir gan fyfyrwyr ydy bwrdd adborth. Fe'i rhannir yn ddwy ran:

**Y Preifat:** Lle gall myfyrwyr a chynrychiolwyr drafod, codi, datrys neu symud adborth ymlaen i'r maes cyhoeddus.
**Y Cyhoeddus:** Lle gall staff agor ymatebion, adolygiadau, sylwadau a hysbysu myfyrwyr trwy wneud sylwad ar y post neu symud o 'In Progress' i Closed'.

## Rôl Cynrychiolydd Cwrs ar Unitu

Mae Cynrychiolwyr Cwrs yn adolygu postiadau adborth ac ymateb lle bo'n briodol. Gall cynrychiolwyr rannu'r adborth â staff yn yr adran trwy ei symud i'r cam nesaf, *'Opened'*. Yma, gall staff weld cynnwys yr adborth a rhoi ymateb, gan esbonio sut y gwneir newid yn ymateb i'r adborth. Gall staff wedyn symud yr adborth i'r cam nesaf *'In Progress'* neu i'r cam olaf *'Closed'* gan ddibynnu ar eu hymateb. Caiff newidiadau sylweddol eu recordio yn adran *'Together We Changed'* o Unitu i gau'r ddolen adborth.

## Hyfforddiant Unitu

Gallwch gael hyd i gyflwyniad cynhwysfawr ar sut mae Unitu yn gweithio ar yr adran Cynrychiolwyr Cwrs.

## Gwybodaeth Bellach

I gael rhagor o wybodaeth am Unitu, gwyliwch y fideo fer hon

Unitu | THE STUDENT VOICE PLATFORM

# Hyfforddiant Cynrychiolwyr Cwrs

Cynhelir Hyfforddiant Cynrychiolwyr Cwrs ddechrau y flwyddyn academaidd i sicrhau fod gan Gynrychiolwyr Cwrs yr holl sgiliau angenrheidiol wrth ddal y rôl.

Bydd cymysgedd rhwng hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein yn ogystal â hyfforddiant sydyn i atgoffa Cynrychiolwyr Cwrs sy'n dychwelyd am y rôl i chi gadw ar ben gwybodaeth newydd, a hyfforddiant manylach hirach ar gyfer Cynrychiolwyr Cwrs newydd.

Anogir Cynrychiolwyr Cwrs i ymuno â'r hyfforddiant wyneb yn wyneb, gan ein bod am feithrin cymuned Gynrychiolwyr Cwrs.



## Pam ddylwn i fynychu hyfforddiant Cynrychiolwyr Cwrs?

- Bydd yn eich helpu i feithrin perthynas ag Undeb y Myfyrwyr ac agor y drws i chi ar gyfer unrhyw gyfleoedd a gynhelir gan yr Undeb yn y dyfodol.
- Mae'n rhaid i bob Cynrychiolydd Cwrs gwblhau'r hyfforddiant.
- Bydd yn eich helpu i feithrin sgiliau newydd ee y gallu i gyfathrebu, hyder a sgiliau arwain, a'r rhain i gyd o fudd mawr i CV.
- Bydd yn rhoi i chi'r holl sgiliau sydd eu hangen i chi fod yn gynrychiolydd cwrs a sut i ddelio ag unrhyw sefyllfa y gallech ei hwynebu.
- Bydd yn rhoi i chi'r cyfle i gwrdd â chynrychiolwyr cwrs eraill a meithrin rhwydwaith a chymuned i helpu, cefnogi a gweithio ar y cyd â'ch gilydd.
- Gallwch gofnodi'r oriau a fynychir yn oriau o wirfoddoli ac ennill gwobr yng ngwobrau'r Undeb- mae hyn yn edrych yn dda ar eich CV!
- Bob mis byddwn yn dyfarnu 2 gynrychiolydd cwrs y mis, ac mae rhaid i chi fod yn gynrychiolydd cwrs rhagorol i'w hennill. Y ffordd hawsaf o fynd ati i'w wneud ydy cwblhau'r hyfforddiant.

# Senarios Cyffredin

Ceir yma ychydig o senarios y gallech eu hwynebu wrth fod yn gynrychiolydd cwrs a sut y dylid ymateb iddynt.

| # | Senario | Y Cam |
|---|---|---|
| 1 | **Dyma fyfyriwr yn dod atoch, yn bryderus oherwydd y mae ei waith wedi'i amlygu am ddefnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial ac yn poeni ei fod yn mynd i fethu modiwl.** | Cysurwch nhw a dywedwch wrthynt beidio â phoeni a'u cyfeirio at gynghorwyr myfyrwyr yr Undeb. |
| 2 | **Mae adborth ar waith cwrs wedi'i ohirio ymhell dros yr amser disgwyliedig.** | Ewch at yr arweinydd modiwl ac esboniwch fod mwy o oedi na'r arfer ar gyhoeddi'r marciau. Os oes rheswm da dros hyn, caewch y ddolen adborth a rhowch wybod i'ch cyfoedion am pam ei bod yn cymryd mor hir. Os nad oes rheswm da, gofynnwch i'ch darlithydd roi syniad o erbyn pryd y gellir disgwyl cyhoeddi'r marciau ac yna gadewch wybod i'r garfan trwy gau'r ddolen adborth. |
| 3 | **Mae gennych ddau ddarlithydd yn dysgu yn yr un modiwl ac mae'r ddau yn rhoi gwybodaeth wahanol am yr un asesiad, gan ddrysu'r garfan.** | Ceisiwch am eglurhad gan arweinydd y modiwl. Fel arfer, bydd arweinydd y modiwl yn gwybod popeth am y modiwl a nhwythau a gaiff y gair olaf ar sut mae'n gweithio ac ar yr asesiadau. Os ydych chi'n parhau i gael trafferthion, rhowch yr ymateb a gawsoch oddi wrth y garfan ar ddeall a gofynnwch am gyngor terfynol gan arweinydd y cynllun. |
| 4 | **Mae hanner y myfyrwyr ar eich cwrs yn teimlo bod cynnwys y cwrs yn ddiflas ac nad ydy'n perthyn i'ch asesiadau, ond bod y lleill yn anghytuno ac yn credu bod y cynnwys yn berffaith ar gyfer y modiwl a'r cwrs.** | Soniwch am y canfyddiadau wrth y staff academaidd yn y Fforymau Llais y Myfyrwyr ac eglurwch fod hollt ym marn y garfan. Peidiwch â dangos ffafriaeth nac ochri â'ch barn eich hun. Cadwch yn diduedd a rhannwch ddadl a barn lawn y garfan. |
| 5 | **Dyma fyfyriwr yn dod atoch a dweud wrthych eu bod yn teimlo'n ynysig ac unig ac nad ydynt yn gwybod beth i'w wneud.** | Cynigiwch gefnogaeth iddynt, dywedwch wrthynt fod sawl ffordd o ddod i nabod pobl newydd yn y Brifysgol. Dangoswch iddynt y rhestr glybiau a chymdeithasau yn y Brifysgol ac yna eu rhoi ar ben y ffordd i'r ddesg Ask. |
| 6 | **Mae criw o fyfyrwyr wedi gwneud cwyn dros UNITU ac mae'n prysur fynd dros ben llestri.** | Os nad ydy'r Cydlynydd Llais y Myfyrwyr wedi gweld y postiadau, penodwch y mater i'r aelod o staff perthnasol a rhowch wybod i Gydlynydd Llais y Myfyrwyr. Arhoswch nes bod y mater yn cael ei ddatrys, ac unwaith iddo orffen, cofiwch cau'r ddolen. |

# Cwestiynau Cyffredin

**Beth NAD ydy Cynrychiolydd Cwrs yn ei wneud?**
Nid ydy Cynrychiolydd Cwrs yn delio â chwynion academaidd unigol, apeliadau, amgylchiadau personol na phenderfynu marciau. Os byddwch yn cael myfyriwr yn siarad â chi ynglŷn ag unrhyw o'r pynciau hyn, rhowch nhw ar ben ffordd i dîm cynghori Undeb y Myfyrwyr.

**Beth ddylwn i ei wneud os mae'r myfyrwyr yn anghytuno?**
Dylid cyflwyno dwy ochr y ddadl yn hytrach nac ochri ag un yn unig. Rhowch yn glir ar ddeall bod gwahaniaeth barn. Ni ddylid cyflwyno un safbwynt yn unig os oes anghytuno.

**Beth ddylwn ei wneud wedi cyfarfod?**
Rhannwch grynodeb o'r hyn a ddigwyddodd yn y cyfarfod â gweddill y myfyrwyr yn ogystal ag unrhyw sylwadau a wnaed mewn ymateb i'w hadborth. Rhowch derfyn ar y ddolen adborth trwy ddweud wrthynt sut y caiff yr adborth ei drin.

**Beth os na fyddaf yn gwybod yr ateb i Gwestiwn Myfyriwr?**
Mae'n i beidio â gwybod popeth. Os ydych chi'n ansicr o sut i ateb cwestiwn, dylid naill ai dweud wrth y myfyriwr eich bod am chwilio am yr ateb drostynt ac yna dod yn ôl atynt ymhen ychydig ddyddiau neu eu cyfeirio at yr adran a all gynnig ateb.

**Sut ydw i'n casglu adborth?**
Gallwch hel adborth drwy sawl dull ee arolygon, ar lafar gwlad, grwpiau ffocws, a defnyddio UNITU.

**Beth ddylwn ei wneud os bydd darlithydd yn anghytuno â'r adborth?**
Proffesiynoldeb piau hi a rhowch sylw i'r dystiolaeth rydych chi wedi'i chasglu. Cynnal trafodaeth fuddiol ydy'r nod. Dim ond i chi esbonio mai fel hyn mae'r myfyrwyr yn teimlo.

**Faint o amser y mae bod yn gynrychiolydd cwrs yn ei gymryd?**
Rôl wirfoddol ydy hon felly cewch ymroi cymaint neu gyn lleied o amser ag y mynnwch iddi cyhyd â'ch bod yn gallu mynychu'r hyfforddiant a'r ddau Fforwm Llais y Myfyrwyr. Ond gair o gyngor o'm rhan i, mwyaf y byddwch chi'n ei roi i'r rôl, po fwyaf y cewch ganddi.

**Pa mor aml byddaf yn mynychu cyfarfodydd?**
Cynhelir Fforymau Llais y Myfyrwyr ddwywaith y flwyddyn, ond efallai y gofynnir i chi fynychu cyfarfodydd llai, anffurfiol gydag aelodau staff neu fyfyrwyr eraill i drafod unrhyw faterion neu adborth a godir.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau yr hoffech gael eu hateb, mae croeso i chi eu hanfon at
Joshua.Darlington@wrexham.ac.uk

# Cysylltiadau Defnyddiol

## Cysylltiadau Undeb y Myfyrwyr Allweddol
Josh Darlington
joshua.darlington@wrexham.ac.uk

## Y Cydlynydd Democratiaeth ac Ymgyrchoedd
Ben Sanders
ben.sanders@wrexham.ac.uk

## Llywydd yr Undeb
Abimbola Caleb
supresident@wrexham.ac.uk

## Is-Lywydd yr Undeb
Omeya Chinemerem
suvp@wrexham.ac.uk

## Pennaeth Gwasanaethau'r Aelodaeth
Carrie Bennett
carrie.bennett@wrexham.ac.uk

## Cynghorwyr Myfyrwyr
Cath Clark
cath.clark@wrexham.ac.uk

Leah Edwards
leah.edwards@wrexham.ac.uk

## Ymholiadau Cyffredinol
Y Dderbynfa
union@wrexham.ac.uk